sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Adolygiad Ofcom o gynnydd arfaethedig ym maint y cynnwys archif ar BBC iPlayer

Casgliad o'r asesiad cychwynnol

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 30 Tachwedd 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

Mae'r holl wasanaethau fideo-ar-alw ("**VoD**") mawr yn cynnig cymysgedd o raglenni newydd a chatalogau o gynnwys hŷn. Ers 2019, mae'n bosib i gynulleidfaoedd gael mynediad i raglenni ar BBC iPlayer am 12 mis o'i ddarlledu fel mater o drefn. Mae rhaglenni hŷn hefyd ar gael, fel cyfresi blaenorol o deitlau sy'n dychwelyd. Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn cyfyngu ar argaeledd rhaglenni hŷn ar BBC iPlayer gan gyfeirio at y meintiau a nodwyd ganddi yn ei chynnig ar gyfer BBC iPlayer yn 2019.[1]

Mae'r BBC wedi cynnig i beidio â chymhwyso'r terfynau hyn mwyach ac i gynyddu maint y cynnwys hŷn ar BBC iPlayer drwy gyhoeddi - yn amodol ar ei chyfyngiadau ariannol a gweithredol - unrhyw deitl yn unol â'i chytundebau gyda chynhyrchwyr a deiliaid hawliau sylfaenol. Mae wedi ymgynghori ac wedi hynny ymgymryd â phrawf budd y cyhoedd ('**PIT**') ar ei chynlluniau. Mae Bwrdd y BBC wedi canfod bod y PIT wedi'i fodloni ac nad yw'r newid arfaethedig yn faterol.

Yn unol â gofynion Siarter a Chytundeb y BBC, rydym wedi cynnal asesiad o newid arfaethedig y BBC i BBC iPlayer, er mwyn penderfynu a yw'r newid arfaethedig yn 'faterol' ai beidio.[2] Bu i ni ymgynghori ar ein barn dros dro nad yw'r newid arfaethedig yn faterol, sy'n golygu na fyddai'n ofynnol o dan y Cytundeb i gynnal asesiad cystadleuaeth o'r BBC ("**BCA**") neu asesiad byrrach sy'n ystyried elfennau o'r BCA ("**Asesiad Byrrach**").[3] Rydym bellach wedi cymryd adborth gan randdeiliaid i ystyriaeth wrth ddod i'n casgliad.

Yn y ddogfen hon rydym yn esbonio ein casgliad y gall y BBC fwrw ymlaen â'i chynnig. Rydym yn crynhoi barn rhanddeiliaid mewn ymateb i'n hymgynghoriad a sut rydym wedi ystyried y rhain wrth gyrraedd ein casgliad.

### Ein casgliad

At ddibenion ein hasesiad materoldeb, **rydym wedi ystyried sut y gallai BBC iPlayer esblygu'n realistig dros y blynyddoedd i ddod yng ngoleuni'r cynnig gan y BBC**. Mae cynnig y BBC yn dangos y byddai'n disgwyl gweld cynnydd o lai na thair gwaith y lefelau presennol o gynnwys archif ar BBC iPlayer yn ystod y cyfnod hwn. Byddai hyn yn gyfystyr â newid canrannol sy'n llai na'r cynnydd yn y cynnwys ar BBC iPlayer ers y newidiadau iddo yn 2019, a hynny wedi'i yrru gan ehangiad mewn cynnwys hŷn yn hytrach na chynnwys mwy newydd.[4] Rydym wedi ystyried sut y gallai'r cynnig effeithio ar y defnydd o BBC iPlayer, maint unrhyw eilyddio a allai ddigwydd o ran cynulleidfaoedd, a sut y gallai hyn effeithio ar refeniw masnachol, yn ogystal â chymryd datblygiadau yn y farchnad i ystyriaeth.

[1] BBC, Ebrill 2019. Prawf Budd y Cyhoedd BBC iPlayer, t.31.
[2] Y Cytundeb, Cymal 9(1). Y Cytundeb, Cymal 46(5).
[3] Y Cytundeb, Cymal 9(3).
[4] Roedd PIT y BBC yn 2019 yn cynnwys cynnydd mewn argaeledd safonol o 30 diwrnod i 12 mis ar gyfer pob comisiwn. Gweler BBC, Ebrill 2019. Prawf Budd y Cyhoedd BBC iPlayer.

**Ein casgliad yw nad yw cynnig y BBC yn newid materol, ar ôl asesu'r dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymatebion gan randdeiliaid.** Rydym o'r farn bod cynnig yn annhebygol o gael effaith fawr ar gynulleidfaoedd, ac y bydd gwylwyr ychwanegol yn cael eu tynnu o amrediad o set fawr o gystadleuwyr, felly bydd yr effaith ar gystadleuwyr unigol yn gyfyngedig. Mae ein casgliad yn seiliedig ar asesu'r risgiau i gystadleuaeth dros amserlen resymol ac nid yw'n awgrymu gosod terfynau ar faint o gynnwys y gallai'r BBC ei ychwanegu.

**Ein casgliad felly yw y gall y BBC fwrw ymlaen â'i chynnig i gynyddu maint y cynnwys archif sydd ar BBC iPlayer.** Er hynny, bydd yn ofynnol o hyd i'r BBC ystyried a allai unrhyw newidiadau i BBC iPlayer yn y dyfodol gael effaith berthnasol ar gystadleuaeth, ac mae offer rheoleiddio ar gael i Ofcom a allai ystyried materion cystadleuaeth arwyddocaol a allai ddod i'r amlwg dros weddill cyfnod y Siarter.

**Rydym yn cydnabod bod gan randdeiliaid bryderon am effaith caffaeliadau'r BBC ar gystadleuaeth.** Ar gyfer yr asesiad hwn, nid ydym wedi ystyried caffaeliadau ar y sail na fydd y BBC yn newid argaeledd cynnwys caffaeledig ar BBC iPlayer fel rhan o'r cynnig. Fodd bynnag, rydym yn dweud eto, pe bai'r BBC yn ystyried gwneud newidiadau i'w hymagwedd at gaffael ar BBC iPlayer yn y dyfodol, y byddai angen ystyried a oeddent yn faterol o dan y fframwaith rheoleiddio. At hynny, fel rhan o'n hadolygiad o'r Drwydded Weithredu, rydym wedi ymgynghori ar ofynion newydd i'r BBC adrodd ar y rôl y mae caffaeliadau'n ei chwarae yn ei chynlluniau i ddarparu allbwn unigryw, a'u rôl ar BBC iPlayer yn fwy cyffredinol, a fyddai'n ein galluogi ni - a rhanddeiliaid - i fonitro newidiadau y mae'r BBC yn eu gwneud yn y maes hwn.

**Bu i ni dderbyn adborth gan randdeiliaid hefyd ynghylch ansawdd proses ymgynghori'r BBC.** Er i ni ystyried y darparwyd digon o wybodaeth yn natganiad PIT y BBC i'n galluogi i adolygu materoldeb, gallai'r BBC fod wedi darparu mwy o wybodaeth am natur a manylion ei chynlluniau yn ei hymgynghoriad PIT i alluogi rhanddeiliaid i ddeall y cynnig yn llawn ac i ddarparu mewnbwn adeiladol yn ystod ei broses. Ochr yn ochr â'r datganiad hwn, rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriad sy'n gwahodd sylwadau ar ddiweddariadau arfaethedig i'n harweiniad ar sut yr asesir effaith y BBC ar gystadleuaeth, gan gynnwys arweiniad ychwanegol sy'n disgrifio pa wybodaeth yr ydym yn disgwyl i'r BBC ei chynnwys mewn ymgynghoriadau PIT.

*Mae adran trosolwg y ddogfen hon yn grynodeb syml lefel uchel yn unig. Mae'r casgliad yr ydym wedi'i gyrraedd a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.*